

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

740/51

Tystysgrif Lefel Mynediad

GWYDDONIAETH

(Dyfarniad Sengl)

A.M. DYDD MERCHER, 30 Mawrth 2006

(1 Awr)

I'r Arholwr yn Unig

Cyfanswm y marciau	
-------------------------------	--

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Os nad ydych yn gallu darllen cwestiwn, codwch eich llaw, a bydd yr athro/athrawes yn ei ddarllen i chi.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Atebwch bob cwestiwn.

1. Dyma restr o gyfarpar sydd i'w gael yn y labordy.


SILINDR MESUR	TWNDIS/TWMFFAT	TRYBEDD
THERMOMEDR	SBLINT	BICER
STOPGLOC	CHWISTRELL	GEFEL
RIWL FETR	PREN MESUR	SBATWLA

O'r rhestr hon, dewiswch yr **un (1)** gorau ar gyfer y tasgau canlynol. [5]

- (a) Arllwys cemegyn hylifol i mewn i botel.
- (b) Mesur tymheredd yr ystafell ddosbarth.
- (c) Codi darn o wydr poeth iawn.
- (ch) Mesur hyd yr ystafell ddosbarth.
- (d) Ychwanegu 2 cm^3 o ddŵr at diwb profi.

2. (a) Mae bicer o ddŵr yn cael ei bwysu, gan ddefnyddio'r glorian a ddangosir yn **Diagram A**.

O dan **Diagram A**, ysgrifennwch y darlenniad a ddangosir ar y glorian. [1]



- (b) Cafodd **deg (10)** ciwb o siwgr eu pwysu. Eu pwysau oedd 40g.
Dangoswch y darlenniad hwn ar y glorian yn **Diagram B**. [1]

- (c) Beth fyddai pwysau **pum (5)** ciwb o siwgr? g [1]

- (ch) Yna cafodd y **pum (5)** ciwb eu hychwanegu at y bicer o ddŵr a ddangosir yn **Diagram A**.

Cawsant eu troi hyd nes iddynt hydoddi (*dissolve*).

Beth fyddai'r darlenniad ar y glorian nawr? g [1]


3. Fel rhan o brosiect ailgylchu mewn ysgol, mae Andrew yn cadw rhestr o'r holl wastraff yn ei fin sbwriel gartref. Mae'r tabl isod yn dangos ei ganlyniadau.

Sylwedd	Canran (%)
Bwyd	15
Plastig	10
Gwydr	5
Cardbord	15
Papur	20
Brethyn (<i>cloth</i>)	10
Metel	25

Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl i gwblhau'r siart cylch isod.

Mae **tri (3)** wedi cael eu gwneud i chi.

[4]



4. Mae'r cyfarwyddiadau isod wedi cael eu hysgrifennu ar becyn o fwyd blodau y mae'n rhaid ei gymysgu â dŵr cyn ei ychwanegu at y blodau.

I wneud y bwyd blodau:

1. Gwagiwch (*empty*) gynnwys y pecyn i mewn i gynhwysydd gwydr.
 2. Mesurwch 500cm^3 o ddŵr, wedi'i gynhesu i 50°C .
 3. Arllwyswch y dŵr ar y powdr a'i droi hyd nes iddo hydoddi'n llwyr.
- Gadewch i'r hylif oeri cyn ei ddefnyddio.

Yn y lle gwag isod, gwnewch restr o **chwe (6)** darn o gyfarpar y byddai'n rhaid i chi eu casglu **yn y labordy** er mwyn dilyn y cyfarwyddiadau hyn. [6]

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....


.....

5. Mae Anna wedi darganfod bod sbring metel bach yn ymestyn wrth roi pwysynnau (*weights*) arno. Mae hi'n mesur hyd y sbring ar ôl ychwanegu gwahanol bwysynnau. Yna mae hi'n ysgrifennu ei chanlyniadau yn y tabl isod.

Pwysyn (g)	Hyd (cm)
10	30
20	40
30	50
40	60
50	70
60	80
80	100



- (a) Platiwch y canlyniadau ar y graff isod. Mae'r canlyniad **cyntaf** eisoes wedi cael ei farcio i'ch helpu. Unwch y pwyntiau ar y graff â llinell addas. [7]



(b) Nodwch hyd y sbring ar ôl ychwanegu 70g.

[1]

..... cm

(c) Nodwch y pwysyn a fyddai wedi gwneud hyd y sbring yn 65 cm.


[1]

..... cm

(ch) Beth fyddai hyd y sbring wedi bod pe bai pwysyn 100g wedi cael ei ychwanegu?[1]

..... cm

6. Mae'r allwedd isod yn rhoi peth gwybodaeth am gemegau.



Defnyddiwch yr allwedd i ateb y cwestiynau ar y dudalen nesaf.

(a) Enwch **ddau (2)** gemegyn **nad** ydynt yn hydoddi mewn dŵr. [2]

..... a

(b) Enwch **un (1)** cemegyn **nad** yw'n solid ar dymheredd ystafell. [1]

.....

(c) Enwch **un (1)** cemegyn **nad** yw'n hydoddi nac yn llosgi. [1]

.....

(ch) Enwch **un (1)** cemegyn sy'n troi dŵr yn las. [1]

.....

(d) Nodwch **dri (3)** pheth am gwyr o'r wybodaeth yn yr allwedd. [3]

1.

2.

3.

7. Edrychwch yn ofalus ar y **ddau** (2) ddiagram isod o gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio mewn arbrawf.

Mae **pum** (5) gwahaniaeth rhyngddynt.

Tynnwch gylchoedd ar **Diagram B** i ddangos yn glir ble mae **pob** gwahaniaeth. [5]

Diagram A






Diagram B




8. Cysylltwch y diagramau o gyfarpar â'r labeli cywir. Mae un wedi cael ei wneud i chi. [4]


Chwistrell




Twndis/Twmffat




Tiwb profi




Stopgloc



Silindr mesur



9. Mae Daniel yn gosod tiwbiau gwydr o wahanol feintiau (*sizes*) mewn dysgl o ddŵr lliw. Mae'n eu gadael am ychydig o funudau. Wrth edrych arnynt wedyn, mae'n darganfod bod y dŵr wedi codi i fyny pob tiwb fel y dangosir isod.



- (a) Pa batrwm ydych chi'n gallu sylwi rhwng lled (*width*) y tiwbiau gwydr a pha mor uchel mae'r dŵr yn codi ynddynt? [2]

.....

.....

.....


.....

- (b) Pam mae Daniel wedi defnyddio dŵr lliw ar gyfer yr arbrawf hwn? [1]

.....

.....

10.



Edrychwch yn ofalus ar y llun o blant yn gweithio yn y labordy. Mae'n dangos **pedair (4)** ffordd nad yw'r plant yn gweithio'n ddiogel iawn.

Tynnwch gylchoedd o amgylch **pedwar (4)** gweithgaredd sy'n beryglus. [4]

11. Fel rhan o arolwg, mae disgyblion yn cyfrif nifer y gwahanol adar sy'n dod i'r bwrdd adar yn yr ysgol. Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r arolwg.

Diwrnod	Aderyn y To	Bronfraith
Dydd Llun	15	9
Dydd Mawrth	11	7
Dydd Mercher		
Dydd Iau	12	9
Dydd Gwener	14	7


- (a) Mae John wedi anghofio ychwanegu canlyniadau Dydd Mercher. Roedd 7 aderyn y to a 6 bronfraith.

Ychwanegwch y wybodaeth hon i gwblhau'r tabl. [2]

- (b) Sawl aderyn y to a ddaeth i'r bwrdd adar Ddydd Gwener? [1]

- (c) Sawl bronfraith a ddaeth i'r bwrdd adar Ddydd Llun? [1]

- (ch) Defnyddiwch y wybodaeth yn y tabl i gwblhau'r siart bar. Mae'r wybodaeth ar gyfer **tri (3)** diwrnod wedi cael ei llenwi i chi eisoes. [4]



12. Mae math newydd o hylif golchi llestri (*washing up liquid*), *Glisten*, ar werth yn y siop leol. Mae'r gwneuthurwyr (*makers*) yn dweud bod *Glisten* yn glanhau llestri yn well na hylif golchi llestri cyffredin.

Yn y lle gwag isod, ysgrifennwch neu gwnewch lun o brawf teg i ddarganfod a yw hyn yn wir. [4]